



# Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn

Datganiad Siapio'r Farchnad Gogledd Cymru 2018




# Beth sy'n Digwydd Rŵan

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru eisiau sicrhau newid go iawn i'r system iechyd a gofal cymdeithasol yn ein hardal. Fe fydd hyn yn ein helpu ni:

- i wneud yn siŵr bod gwasanaethau'n cydweithio'n dda ac yn rhoi gofal i bobl hŷn yn agosach at gartref
- i reoli'r galw am leoliadau mewn cartrefi gofal rydym ni'n eu hariannu dros y 10-15 mlynedd nesaf, ar yr un lefel â'r un sydd gennym ni rŵan.

**Mae'n bwysig bod gennym ni'r cartrefi gofal iawn gyda'r staff iawn i gefnogi pobl yn y ffyrdd iawn.**



**Mae cartrefi gofal yn chwarae rhan bwysig mewn cefnogi iechyd a llesiant pobl hŷn.**

## Ein Cenhadaeth

Ein nod yw gwella iechyd a llesiant i bawb ledled Gogledd Cymru. Rydym ni'n gweithio gyda gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, busnesau, sefydliadau, elusennau, cymunedau, gofaluwr ac eraill.

Rydym ni eisiau:

- i wasanaethau gamu i mewn yn gynnar i gefnogi iechyd a llesiant
- cymorth hyblyg i ofalwyr
- gwasanaethau cydgysylltiedig sy'n rhoi anghenion pobl wrth galon popeth y maen nhw'n ei wneud
- i bobl a chymunedau gael eu cynnwys mewn gwaith cynllunio a siapio gwasanaethau lleol
- helpu pobl i fyw yn annibynnol am amser hirach
- gwasanaethau cymunedol o ansawdd uchel.

## Rydym ni'n cynnwys pobl

Fe fuom ni'n siarad â phobl a pherchnogion cartrefi gofal i gael gwybod beth sydd ei angen arnyn nhw a pha heriau y maen nhw'n eu hwynebu.

Fe wnaethom ni ysgrifennu **asesiad o'r boblogaeth**. Mae hwn yn casglu gwybodaeth ac ystadegau am ardal. Mae'n rhoi gwybod i bawb beth sy'n digwydd ac i ba gyfeiriad y mae pethau'n mynd.

O ganlyniad, rydym ni:

- yn cefnogi ffyrdd newydd o ddiwallu anghenion pobl yn agosach at gartref
- yn rhoi cynnig ar ffyrdd newydd i wneud yn fawr o adnoddau a chyllid.



## Byw gartref

Mae'r mwyafrif o bobl eisiau byw yn eu cartrefi eu hunain cyhyd â phosibl.

Rydym ni'n cefnogi mwy o lawer o bobl yn eu cartrefi eu hunain nag mewn cartrefi gofal. Mae pobl, ar y cyfan, yn symud i gartref gofal pan mae anghenion iechyd yn dod yn ddifrifol a dydyn nhw ddim yn gallu parhau i fyw gartref yn ddiogel.

## Byw mewn cartref gofal

Mae cartrefi gofal yn gallu cynnig bywyd o ansawdd gwych a bod yn llawn cyfeillgarwch, cariad a chwerthin.

Mae ein cartrefi gofal gorau'n rhai sy'n grymuso, sy'n galluogi, sy'n hyblyg ac sy'n groesawgar. Maen nhw'n gallu bod yn gymunedau yn eu rhinwedd eu hunain a hefyd yn rhan o'r cymunedau ehangach y maen nhw ynddyn nhw.

Mae pob **cartref gofal** yn darparu llety, cymorth 24-awr, prydau bwyd a help ag anghenion gofal.

Mae gan rai cartrefi gofal **staff nyrsio** sy'n helpu â materion iechyd.

Mae rhai cartrefi gofal yn canolbwyntio ar greu lle diogel a chartrefol i bobl â **dementia**.


Mae awdurdodau lleol, busnesau, elusennau a chymdeithasau tai yn rhedeg cartrefi gofal.

Yn 2016/17, fe wariodd Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Iechyd yng Ngogledd Cymru ryw **£93 miliwn** ar leoliadau mewn cartrefi gofal ar gyfer rhyw 5,500 o bobl 65 oed a hŷn. Mae hyn yn cynnwys cyfrannu at ariannu gofal nyrsio yn unig ar gyfer 1,400 o bobl a oedd yn ariannu eu gofal personol a'u llety eu hunain.

# Ein Nodau ar gyfer Cartrefi Gofal

Fe fyddwn ni'n gweithio gyda chartrefi gofal:

- i gyfrifo'r pris iawn am ofal sy'n fforddiadwy ond sydd hefyd yn talu costau
- i'w cefnogi i ddefnyddio'r ffyrdd gorau o weithio
- i gefnogi busnesau llai, lleol i barhau i fod yn gynaliadwy
- i gael gwybod faint o staff sy'n siarad Cymraeg sydd mewn cartrefi gofal
- i gael gwybod faint o bobl sy'n cael gofal yn eu dewis iaith
- i wella'r gofal iechyd sy'n cael ei roi mewn cartrefi gofal.



# Beth Allwn Ni Ei Ddisgwyl yn y Dyfodol

Dydy hi ddim yn hawdd gweithio allan yn union beth fydd yn digwydd yn y dyfodol. Ond mae angen i ni ateb y galw am ofal, o fewn ein hadnoddau (gan gynnwys arian, adeiladau a staff).

## Pam ei bod hi'n bwysig siapio'r farchnad

Mae pobl yn byw yn hirach, sy'n beth da. Ond mae'n golygu bod angen gofal a chymorth ar fwy o bobl yn ddiweddarach mewn bywyd. Os na fyddwn ni'n dod o hyd i ffyrdd newydd o roi gofal i bobl yn agosach at gartref, mae'n bosibl y bydd angen cartrefi gofal ar lawer mwy o bobl yn y dyfodol, oherwydd fe fydd yna:

- fwy o bobl dros 85 oed yn byw ar eu pennau eu hunain, gydag iechyd gwaelach
- fwy o bobl dros 65 oed yn byw â dementia.

**Os na fyddwn ni'n cefnogi pobl i aros gartref am hirach**, erbyn 2030 mae'n bur debyg y bydd angen 7,619 o leoedd tymor hir mewn cartrefi gofal arnom ni. Mae hyn yn golygu tua 1200 yn fwy o leoedd nyrsio a 400 yn fwy o leoedd preswyl yn cefnogi pobl â dementia.



Mae nifer y bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal yn newid dros amser. Mae'r canlynol yn effeithio ar hyn:

- iechyd pobl ac os ydyn nhw'n byw ar eu pennau eu hunain ai peidio
- bod â'r gwasanaethau iawn ar gael i gefnogi pobl yn eu cartrefi eu hunain
- bod â digon o staff â'r hyfforddiant iawn (yn enwedig nyrsys)
- cost darparu gofal i bob unigolyn (gan gynnwys faint mae pobl yn ei dalu tuag at gost eu gofal).

Mae cymorth i barhau i fyw gartref yn dibynnu ar lawer o bethau:

- cael teulu, ffrindiau a chymdogion a fydd yn helpu pobl gartref
- cael digon o staff iechyd a gofal sydd wedi'u hyfforddi (mae angen mwy o lawer o staff arnom ni oherwydd yr amser sy'n cael ei dreulio'n teithio rhwng apwyntiadau)
- cael digon o arian i dalu cyflogau da i staff a rhoi hyfforddiant da iddyn nhw
- cael digon o arian i foderneiddio cartrefi pobl, talu am offer a thechnoleg.

**Oherwydd y rhesymau hyn, mae angen i ni wneud pethau'n wahanol yn y dyfodol a gweithio gyda darparwyr gwasanaeth, gan gynnwys cartrefi gofal, i lunio cynlluniau gwell.**



# Camau i'w cymryd – beth rydym ni eisiau canolbwyntio arno

## 1. Deall anghenion

Er mwyn dylanwadu ar y ddarpariaeth yn y dyfodol, mae'n bwysig deall beth sydd gennym ni, beth sy'n gweithio a lle mae angen i ni wella.

### Beth rydym ni'n ei wybod

Mae gan Ogledd Cymru ryw **200** o gartrefi gofal – yn darparu mwy na **6,000** o leoedd. O'r rhain:

- mae **70** yn gartrefi nyrsio
- mae **24** yn gartrefi awdurdod lleol.

Ym mis Mai 2016, pan wnaethom ni arolwg, roedd yna **430** o leoedd nad oedd y cartrefi'n eu defnyddio. Mae hyn yn cynnwys:

- ystafelloedd a rennir lle nad yw gwelyau gwag yn cael eu defnyddio, neu lle nad oes modd eu defnyddio
- ystafelloedd nad ydyn nhw ar gael oherwydd gwaith adeiladu neu ailwampio
- ystafelloedd wedi'u neilltuo ar gyfer pobl ar restrau aros
- ystafelloedd wedi'u neilltuo ar gyfer pobl sy'n aros i adael yr ysbyty.

Mae bod â lleoedd nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio'n ei gwneud hi'n anodd i gartrefi gofal barhau mewn busnes.

Mae rhai cartrefi gofal wedi dweud wrthym ni eu bod nhw'n gorfod codi ffioedd uwch ar bobl sy'n talu am eu hunain er mwyn parhau mewn busnes.

Camau i'w cymryd

Fe fyddwn ni:

- yn gweithio gyda pherchnogion i ddeall eu risgiau busnes yn well
- yn helpu cartrefi gofal i ddeall cyfreithiau a pholisïau newydd, gan gynnwys **Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)**.

## 2. Gweithio gyda'n gilydd a chynnwys pobl

Fe fuom ni'n siarad â phobl a chartrefi gofal i gael gwybod beth sydd ei angen arnyn nhw a pha heriau y maen nhw'n eu hwynebu.

### Beth rydym ni'n ei wybod

Fe wnaethom ni ofyn i bobl o Ogledd Cymru beth oedd eu pryderon ynglŷn â byw yn eu blynyddoedd hŷn. Dyma oedd ganddyn nhw i'w ddweud:

- cadw eu hannibyniaeth
- cael gweithgareddau cymdeithasol a gweithgareddau hamdden
- bod wedi'u hynysu neu'n unig
- gallu dewis gwasanaethau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig
- cael gofal o ansawdd
- cael pobl sy'n siarad eu hiaith yn gofalu amdany'n nhw.

Fe wnaethom ni ofyn i reolwyr a staff cartrefi gofal beth fyddai'n eu helpu nhw. Dyma oedd eu prif bwyntiau:

- help i ddefnyddio tir i'r eithaf ar gyfer pethau fel estyniadau
- atal sefydliadau mawr rhag cymryd cartrefi gofal drosodd ac achosi i gartrefi gofal llai fynd i'r wal
- awdurdodau lleol i edrych ar gostau llawn gofal i weld pwy sy'n cynnig y gwerth gorau
- help i ddod o hyd i'r staff iawn a'u hyfforddi.

Camau i'w cymryd

Fe fyddwn ni'n helpu cartrefi gofal i adeiladu'r timau staff sydd eu hangen arnyn nhw, gan gynnwys:

- cymorth â hyfforddiant ar gyfer rheolwyr a staff
- cymorth â datblygiad proffesiynol parhaus nyrsys cymwysedig
- gweithio ar fframwaith ffioedd fel eu bod nhw'n gallu cynnig swyddi sy'n talu'n well a chyfleoedd i ddatblygu gyrfa
- gwneud yn siŵr eu bod nhw'n barod ar gyfer y galw yn y dyfodol.

### 3. Sicrhau bod gennym ni ddigon o ddarpariaeth cartrefi gofal o ansawdd uchel i ddiwallu anghenion rŵan ac yn y dyfodol

#### Beth rydym ni'n ei wybod

Mae nifer y bobl 65 oed a hŷn sy'n byw yng Ngogledd Cymru ar gynydd. Mae hyn yn golygu mwy o alw ar wasanaethau.

Mae nifer y bobl o oedran gweithio'n gostwng. Nid oes gennym ni ddigon o bobl yn gweithio ym maes gofal.

Ac yng Nghymru yn 2016:

- roedd 3% o gyfanswm y gweithlu gofal cymdeithasol yn nyrsys cofrestredig (mae nyrsys cofrestredig yn cyfrif am 12% o'r gweithlu cartrefi gofal)
- roedd 7% o'r holl swyddi gwag ym maes gofal ar gyfer nyrsys cofrestredig.

Mae diffyg staff nyrsio yn y GIG hefyd yn ei gwneud hi'n fwy anodd i gartrefi gofal gyflogi a chadw staff.

Camau i'w cymryd

Fe fyddwn ni:

- yn parhau i gefnogi cartrefi gofal trwy ein **rhaglen datblygu'r gweithlu.**

### 4. Darparu gwasanaethau diogel, o ansawdd da

Mae'n rhaid i gartrefi gofal fod yn ddiogel. Mae angen iddyn nhw hefyd fod â'r arweinyddiaeth, y staff, y polisiau a'r arferion cywir, a hefyd cyllid.

#### Beth rydym ni'n ei wybod

Mae yna lawer o gartrefi gofal rhagorol yng Ngogledd Cymru, sy'n cefnogi anghenion pobl.

Mae angen i rai wella mewn meysydd fel:

- datblygu rheolwyr
- sicrhau arweinyddiaeth effeithiol (yn enwedig o ran diwallu anghenion iechyd)
- dod o hyd i'r staff iawn a'u cadw (gan gynnwys rheolwyr a nyrsys da)
- hyfforddi staff
- cynnal a chadw ac ailwampio adeiladau (gan gadw pobl yn ddiogel ac yn iach)
- cael gwybodaeth dda am y gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu
- cael polisiau a gweithdrefnau da i helpu staff.

Camau i'w cymryd

Fe fyddwn ni'n gweithio gyda chartrefi gofal:

- i ddatblygu fframweithiau ar gyfer gwasanaethau diogel, o ansawdd da
- i ddeall eu costau
- i wirio ansawdd y gwasanaethau rydym ni'n talu amdany'n nhw
- i wneud gwelliannau lle bo angen hynny.

# Sut y byddwn ni'n Cefnogi Datblygu

Fe fyddwn ni'n buddsoddi mewn datblygiadau yng Ngogledd Cymru.

Mae hyn yn cynnwys:

- cymorth i bobl hŷn yn eu cartrefi eu hunain
- gwasanaethau cymunedol sy'n gwella llesiant
- gwasanaethau sy'n helpu pobl i wella'u llesiant ar ôl iddyn nhw fod â phroblemau iechyd
- gwasanaethau sy'n gohirio angen pobl hŷn i gael cymorth a gofal sydd wedi'i reoli
- gwneud yn siŵr bod y lleoedd cartrefi gofal iawn yn yr ardaloedd iawn
- cefnogi'r gweithlu.

**Fodd bynnag, fe allai cartrefi gofal helpu trwy ddarparu gwahanol wasanaethau.**

## Beth sydd ei angen arnom ni oddi wrth gartrefi gofal

### Fe allai cartrefi gofal ddarparu mwy o wasanaethau

Fe allai cartrefi gofal helpu trwy ddarparu gwasanaethau â'r nod o gefnogi pobl hŷn sydd eisiau parhau i fyw gartref. Gwasanaethau fel:

- darparu gweithgareddau yn y cartref gofal y gallai pobl sy'n byw gerllaw ymuno â nhw
- rhoi cyfleoedd i bobl ddefnyddio bath â chymorth
- darparu prydau bwyd wedi'u coginio i bobl sy'n byw gerllaw (ar ffurf naill ai 'pryd ar glud' neu 'glybiau ciniawa').

Fe allai hyn wella llesiant trwy alluogi pobl i ddatblygu perthnasoedd cymdeithasol ac i ymddiddori yn eu cymuned, gan wneud iddyn nhw deimlo'n llai unig neu wedi'u hynysu.

### Fe allen nhw hefyd gynnig gofal am gyfnod byr.

Gall hyn wirioneddol helpu pan mae angen ychydig o gymorth ychwanegol ar bobl, yn enwedig dros nos:

- oherwydd eu bod nhw wedi bod yn yr ysbyty ('**cam-i-lawr**')
- oherwydd eu bod nhw wedi bod yn sâl, ond nid oes angen iddyn nhw fod yn yr ysbyty ('**cam-i-fyny**')
- oherwydd bod eu teulu / gofalwyr i ffwrdd o gartref ('**egwyl byr**')

### Fe allai cartrefi gofal ddarparu gwahanol wasanaethau

Fe allai cartrefi gofal helpu trwy ddarparu gwasanaethau sy'n arbenigo mewn cefnogi preswylwyr:

- â dementia, gan gynnwys pobl heriol eu hymddygiad
- ag anghenion iechyd sylweddol, gan wneud yn siŵr eu bod nhw'n manteisio ar wasanaethau iechyd cymunedol
- sydd ar ddiwedd eu hoes.



## Diolch am ddarllen hwn

Gallwch chi ddarllen y [Datganiad siapio'r farchnad](#) yma.

## Cysylltiadau Lleol

### Ynys Môn

Dafydd Bulman, Rheolwr Busnes:  
[Dafyddbulman@ynysmon.gov.uk](mailto:Dafyddbulman@ynysmon.gov.uk)

### Gwynedd

Rhion Glyn, Rheolwr Busnes:  
[Rhionglyn@gwynedd.llyw.cymru](mailto:Rhionglyn@gwynedd.llyw.cymru)  
Erin Fon Jones, Rheolwr Categori:  
[Erinfonjones@gwynedd.gov.uk](mailto:Erinfonjones@gwynedd.gov.uk)

### Conwy

Catrin Perry, Rheolwr Adran – Perthnasoedd Annibynnol a'r Trydydd Sector:  
[Catrin.perry@conwy.gov.uk](mailto:Catrin.perry@conwy.gov.uk)

### Sir Ddinbych

Alan Roberts, Rheolwr Tîm – Rheoli Contractau:  
[Alan.roberts@denbighshire.gov.uk](mailto:Alan.roberts@denbighshire.gov.uk)

### Sir y Fflint

Nicki Kenealy, Rheolwr Contractau:  
[Nicki.j.kenealy@flintshire.gov.uk](mailto:Nicki.j.kenealy@flintshire.gov.uk)

### Wrexham

Helen Bainbridge, Pennaeth Gwasanaeth i Bobl Hŷn:  
[Helen.bainbridge@wrexham.gov.uk](mailto:Helen.bainbridge@wrexham.gov.uk)  
Jo Ward, Rheolwr Tîm – Comisiynu a Chontractio:  
[Jo.ward@wrexham.gov.uk](mailto:Jo.ward@wrexham.gov.uk)

### Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Will Williams, Pennaeth Comisiynu Anghenion Cymhleth:  
[Will.williams@wales.nhs.uk](mailto:Will.williams@wales.nhs.uk)

